COFNODION CYNGOR BRO LLANGELER 25 – 11 – 2024

Cofnodion Cyfarfod Misol Nos Lun Tachwedd 25ed 2024 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

1. **11/24 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Ken Howell Cynghorwyr: Jamie Ayres, Angharad Edwards, Delyth Evans, Adrian Thomas, John Crossley, Gethin Richards, Eleri Samson, Antoni Schiavone, Dilwyn Smith. Clerc – Stella Jones.
Hefyd yn Bresennol: Cyfieithydd, Cyng S.G. Hazel Evans

2. **11/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Richard Evans. Aled Eynon, Marc Rees.

3. **11/24 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth yn adran Ceisiadau Cynllunio a ddaw gerbron y Cyngor.

4. **11/24 HEDDLU:** – Ymddiheiriad – *derbyniwyd neges wrth J Kedward yn dweud ei fod wedi siarad a'r person lle mae'r ceir i gyd ar hyd y ffordd yng Nghwmpengraig ac fe ddwedwyd wrtho fod y perchennog yn mynd i gael gwared a rhai o'r ceir, ac mae nifer o'r ceir ar dir preifat felly does dim angen yswiriant arnynt*

5. 11**/24 COFNODION:**
i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Hydref 28ain 2024
Cynnig: Cyng Eleri Samson Eilio: Cyng Antoni Schiavone

6. **11/24 MATERION YN CODI o'r COFNODION**
10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – *i'w drafod yn adroddiad pwyllgor*
10.i. 04/24 Cae Chwarae Pentrecwrt – *cytunwyd gan fod yr adeg yma o bosibl y cyfnod anghywir i wneud penderfyniad ac fe ail edrychir arno yn Chwefror / Mawrth pryd bydd rhaid gwneud penderfyniad.*
10.ii.06/24 Les Cae Chwarae Parc Puw – *dwedodd y Clerc yn dilyn ymholiadau gan y cyfreithwyr nad oedd les wedi ei pharatoi, bu'n siarad ag arbenigwraig yn y cwmni ac roedd wedi addo anfon pwyntiau ymlaen o'r hyn y dylem ystyried cynnwys mewn les, ond nid oedd wedi cael dim hyd yn hyn.*
10.i.09/24 Sul y Cofio – nodwyd bod y Gwasanaeth wedi mynd yn dda er bod ychydig llai wedi mynychu na'r flwyddyn cynt *– Coddod y Clerc y mater o'r broblem o gael rhywun i osod torch yn Llandysul – cytunwyd parhau i wneud hyn flwyddyn nesaf.*

7. **11/24 GOHEBIAETH:**
i. ebost – Antur Cymru - Llunio dyfodol canol trefi Cymru - cylchlythyrwyd
ii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 21/10/2024 - 25/10/2024 – cylchlythyrwyd
iii. ebost – AAC – Apêl Cyngor Cymunedol 2024 [*i'w drafod yn materion ariannol*] – cylchlythyrwyd
iv. ebost – CSG – Diweddariad i Gynghorau Tref a Chymuned – *cylchlythyrwyd*
v. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 28/10/2024 - 01/11/2024 *Planning Applications* - cylchlythyrwyd
vi. ebost – CSG – Apêl Teganau Nadolig – cylchlythyrwyd - [*i'w drafod yn materion ariannol*]
vii. ebost – Gwahoddiad i Agoriad Pethau Pawb opening invitation – cylchlythyrwyd
viii. ebost – Ymgynghoriad newydd: Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru) – cylchlythyrwyd
ix. ebost – National Grid – Golau Nadolig cyflenwad di-fedr ac anfoneb 2024
x. ebost – URDD – llythyr o ddiolch am y cyfraniad
xi. ebost – ULlC - dyddiadau hyfforddiant - Tachwedd - *Rhagfyr 2024* - cylchlythyrwyd
xii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 04/11/2024 - 08/11/2024 - cylchlythyrwyd
xiii. ebost – ULlC - Wythnos Hinsawdd Cymru *11- 15 Tachwedd* -Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru - cylchlythyrwyd
xiv. ebost – Ymgynghoriad: Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru - Adroddiad Modiwl – cylchlythyrwyd
xv. ebost – LLAIS – Cylchlythyr allanol pob mis Llais – cylchlythyrwyd
xvi. ebost – Ceisiadau Cynllunio 11/11/2024 - 15/11/2024 - cylchlythyrwyd
xvii. ebost – ULlC – Cyhoeddi papurau ymgynghori - Cydnerthedd cynllunio a chadw coed – cylchlythyrwyd
xviii. ebost – Radio Glangwili – llythyr o ddiolch
xix. ebost – Apêl Cronfa Cyfle i Bawb Urdd Gobaith Cymru – cylchlythyrwyd

8. **11/24 CYNLLUNIO**
CEISIADAU CYNLLUNIO - YMGYNGHORI LLAWN
Cais Ymgynghori llawn
PL/08446 – Cais ôl-weithredol ar gyfer gardd/ystafell gemau wedi'i godi o fewn cwrtil gardd yr annedd breswyl - Ffrydiau Gwynion, Rhos, Llandysul, SA44 5HF - *dim barn*

9. **11/24 MATERION ARIANNOL**
1. Anfonebau
i.TRYWYDD [caniatad i'w dalu pan daw'r anfoneb].....£62.40
ii. HMRC (Tachwedd).....£130.00
iii. YSGOL SUL ST LLAWDDOG HALL [Hirio Neuadd] £17.00
iv. CLAIRE REES £100.00
v. ETTS [trwsio Golau Nadolig].....£412.80
vi. DŴR CYMRU £17.93

_____Cadeirydd _____Dyddiad

vii. MGS [argraffu i Sul y Cofio].....£24.00
viii. SSE [Golau Nadolig 2023] £152.32

Arian yn y Banc ar 12/11/2024 .....£33,103.56

b. S/O
Cyflog y Clerk £530.00

2. Apêl am Nawdd Ariannol
i. Rhodd Ariannol i'r RBL - £150.00
ii. URDD – Apêl Cronfa i Bawb – *wedi rhoi rhodd yn fwy lleol*
iii. AAC - £100.00
iv. Apêl Teganau Nadolig CSG - £50.00

10. 11/24 MATERION ANGEN TRAFODAETH
i. Toiledau Parc Puw dros y Gaeaf – *yn dilyn trafodaeth cytunwyd cau'r toiledau o'r 1af o Ragfyr tan Mawrth 31ain*
ii. Golau Nadolig Pont Tyweli – *yn dilyn adroddiad gan y cwmni a drwsiodd y golau awgrymwyd efallai y dylid newid y bylbiau*

11. 11/24 ADRODDIAD PWYLLGOR
Byrddau Llwybrau Gwlân – *dim i ateb ar hyn o bryd gan taw ar y penwythnos cynt y derbyniwyd rhai newidiadau oedd angen gwneud, cytunwyd i'r is bwyllgor gyfarfod ar y 13/01/2025*

12. 11/24 SYLWADAU'R CYNGHORWYR
1. Cyng A Thomas– i. pryder gan ddeiliaid Stryd yr Orsaf bod y draenau yn y stryd yn llawn dail – *nodwyd hyn gan y Cynghorwyr Sir*
ii. mae crac wedi ymddangos ym mhont Pont Tyweli – *nodwyd hyn gan y Cynghorwyr Sir*
2. Cyng A Schiavone – i. cwteri eisiau clirio yn arbennig ar yr hewl o Ceridwen lawr tuag at tro Penbanc yn Drefelin
ii. baw cŵn – bydd yn cael arwyddion gan Cyng. H Evans i roi lan
iii. eisiau torri rhai coed nôl ar yr hewl o Pentrecwrt i Llandysul
iv. mae'r rheiliau sydd ar y gyffordd yn arwain lawr at Henllan wedi torri
3. Cyng D Evans – i. dŵr yn llifo lawr o hewl gefn Saron i Drefelin - *nodwyd hyn gan y Cynghorwyr Sir*
ii. cyflwr yr hewl ar hyd Ffynnon Rhos yn ddifrifol – *nodwyd hyn gan y Cynghorwyr Sir*

13. 11/24 Dyddiad y Cyfarfod nesaf a lleoliad
Nos Lun Ionawr 27ain 2025 am 7.30yh yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 *yh*

_____ Cadeirydd Dyddiad _____